

<b>Teitl:</b> <b>Title:</b>	Canllawiau i Famau Newydd neu Feichiog (Myfyrwyr)
<b>Fersiwn:</b> <b>Version</b>	V1
<b>I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?</b> <b>Who does this Policy Relate to?</b>	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr

#### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	<a href="#">AEC</a>
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i>  <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i>  <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

#### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<b>Perchennog y Ddogfen:</b> <b>Document Owner:</b>	<i>Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr</i>		
<b>Ymgynghoriad/</b> <b>Consultation:</b>	Rhestrwch nhw / Please list Tîm Iechyd a Diogelwch		
<b>Dyddiad Cymeradwyo /</b> <b>Date Approved</b>	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date <i>Grŵp Cyfathrebu a Diwylliant Ionawr 2025</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	<i>12/03/2025</i>	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	<i>Amherthnasol</i>
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	<i>Amherthnasol</i>
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	<i>Amherthnasol</i>
Corff Llywodraethu / Governing Body:	Os yn berthnasol / If applicable		
<b>Dyddiad Adolygu:</b> <b>Review Date:</b>	<i>31/01/2026</i>		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)  
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff  
Please number each section and paragraph

## Tabl Cynnwys

### Canllawiau i Famau Newydd neu Feichiog (Myfyrwyr)

1. Diben	3
2. Cyfrifoldebau Myfyrwyr	3
3. Absenoldeb Awdurdodedig	4
4. Proses	4
5. Y Gymraeg	5
Atodiad 1 - Asesiad Risg ar gyfer Mamau Newydd neu Feichiog (Myfyrwyr)	6

# Canllawiau i Famau Newydd neu Feichiog (Myfyrwyr)

## 1. Diben

1.1 Mae'r coleg yn credu na ddylai beichiogrwydd neu ofalu am blentyn atal unrhyw fyfyrwr rhag llwyddo yn eu hastudiaethau. Bydd y Coleg yn eich cefnogi ac yn eich helpu i gwblhau eich rhaglen astudio yn llwyddiannus, gan sicrhau nad yw safonau academiaidd yn cael eu peryglu ar yr un pryd. Bydd graddau'r hyblygrwydd y gellir ei gynnig yn amrywio rhwng rhaglenni astudio, ond dylai pob adran ddilyn y canllawiau a nodir yn y ddogfen hon ar y cyd â chanllawiau'r Corff Dyfarnu. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ddysgwyr cofrestredig sy'n dilyn y rhaglen astudio ar unrhyw safle'r Coleg. Dylai unrhyw unigolyn sy'n Ddysgwr yn y Gwaith gyfeirio at bolisiau eu sefydliad cyflogi.

1.2 Mae'r Coleg yn cydnabod deddfwriaeth Cyfle Cyfartal a'r hawl i famau newydd neu feichiog barhau â'u dysgu trwy gydol eu cyfnod geni. Mae'r canllaw hwn yn caniatáu cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

1.3 Bydd y Coleg yn cynorthwyo dysgwyr sy'n mabwysiadu plentyn a'u hawl i barhau â'u dysgu trwy gydol y broses.

## 2. Cyfrifoldebau Myfyrwyr

2.1 Os ydych yn feichiog, bydd angen i chi roi gwybod i'ch Anogwr Cynnydd/Tiwtor Cwrs. Mae hyn er mwyn i'r Coleg allu darparu'r cymorth priodol i chi, cynnal asesiad/asesiadau risg ynghylch eich iechyd a'ch diogelwch a hefyd ystyried gyda chi sut mae'r beichiogrwydd yn debygol o effeithio ar eich astudiaeth.

2.2 Os ydych ar leoliad ar yr adeg y mae'r beichiogrwydd yn cael ei gadarnhau, neu os ydych ar fin dechrau lleoliad yn ystod y beichiogrwydd, dylech hefyd roi gwybod i'r darparwr lleoliad o'r beichiogrwydd.

2.3 Os yw'ch dyddiad cyfyngu disgwylidig (dyddiad geni) cyn diwedd eich cwrs neu os byddwch yn cyrraedd 36ain wythnos eich beichiogrwydd cyn diwedd eich cwrs, dylech roi gwybod i'ch Anogwr Cynnydd / Tiwtor Cwrs fel y gellir cynnal trafodaeth bellach ar sut y gallwch gwblhau eich cwrs yn amodol ar ofynion y Corff Dyfarnu.

2.4 Dylech siarad â'ch Anogwr Cynnydd/Tiwtor Cwrs ynghylch sut fyddwch chi'n gallu cadw i fyny â'ch gwaith cwrs a'ch asesiadau tra byddwch chi i ffwrdd o'r coleg. Efallai y gallwch ohirio eich cwrs cyfan neu ran ohono, neu efallai gallwch astudio gartref. Os yw'n briodol, bydd eich Anogwr Cynnydd/Tiwtor Cwrs wedyn yn trafod rhaglen ddysgu ddiwygiedig i chi, gan roi manylion sut y byddwch yn parhau â'ch dysgu a'ch asesiadau, a sut fyddwch chi'n cadw mewn cysylltiad â'r coleg yn ystod eich absenoldeb (e.e. ffonio, e-bost, dysgu rhithwir neu ymweliad â'r coleg).

2.5 Os hoffech gael gwybodaeth am Feithrinfa'r coleg (Meithrinfa Toybox) a'r cymorth ariannol sydd ar gael, cysylltwch â'r Gwasanaethau Myfyrwyr. Sylwch mai dim ond ar y diwrnodau y byddwch chi'n dod i'r coleg y bydd trefniadau meithrinfa gyda chymorth ar gael.

2.6 Os byddwch yn darganfod eich bod yn feichiog ac y byddech yn dymuno trafod hyn gyda rhywun, efallai yr hoffech chi gysylltu â'n Swyddogion Lles yn y Gwasanaethau Myfyrwyr a fydd yn gallu eich helpu, ac os oes angen, eich cyfeirio at asiantaethau allanol i gael cyngor ychwanegol.

### **3. Absenoldeb Awdurdodedig**

- 3.1 Mae gennych chi hawl i absenoldeb awdurdodedig ar gyfer pob apwyntiad cynenedigol neu unrhyw apwyntiadau mabwysiadu. Mae gan eich tiwtor cwrs hawl i ofyn am brawf o'r apwyntiadau hyn.
- 3.2 Fel arfer, byddem yn disgwyl i absenoldeb mamolaeth ddechrau o'r 11eg wythnos cyn yr wythnos ddisgwyliedig o enedigaeth hyd at y diwrnod y bydd genedigaeth yn digwydd.
- 3.3 Mae'n ofynnol i fyfyrwyr yn unol â chanllawiau cyfraith cyflogaeth gymryd pythefnos o absenoldeb gorfodol yn syth ar ôl geni plentyn.
- 3.4 Ar ôl geni'r babi bydd gofyn i chi gysylltu â'ch Anogwr Cynnydd/Tiwtor Cwrs i gytuno ar ddyddiad dod yn ôl i'r coleg, neu gall eich Anogwr Cynnydd gysylltu â chi i drafod cwblhau'r cwrs.
- 3.5 Mae gan unrhyw fyfyrwr sy'n bartner i rywun sydd wedi rhoi genedigaeth hawl i bythefnos o absenoldeb rhiant. At ddibenion y polisi hwn, mae partner yn berson (boed o ryw wahanol neu'r un rhyw) sy'n byw gyda'r fam / mabwysiadwr a'r plentyn mewn perthynas deuluol barhaus, ond nid yw'n berthynas i'r fam / mabwysiadwr. Dylai myfyrwyr drafod absenoldeb tadolaeth gyda'u Hanogwr Cynnydd/Tiwtor Cwrs i ddechrau.
- 3.6 Mae absenoldeb awdurdodedig ar gael hefyd i fyfyrwyr sy'n cyd-rianta ac sy'n mynychu apwyntiadau cynenedigol.

### **4. Proses**

- 4.1 Bydd asesiad risg (Atodiad A) yn cael ei gynnal i sicrhau bod cyn lleied o risgiau rhagweladwy a bo modd i iechyd, diogelwch neu les naill ai'r fam, neu'r plentyn yn y groth, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol.
- 4.2 Mae'n bwysig cofio mai'r risg fwyaf i blentyn heb ei eni yw yn ystod tair wythnos ar ddeg cyntaf beichiogrwydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi'n astudio mewn adran lle y gallai fod triniaeth a/neu fod yn agored i gemegau neu ymbelydredd, neu y gellid disgwyl iddo godi gwrthrychau trwm neu ymgymryd â gweithgaredd egnïol arall.
- 4.3 Felly, unwaith y byddwch wedi rhoi gwybod i'ch Anogwr Cynnydd / Tiwtor am eich beichiogrwydd, mae'n hanfodol bod Asesiad Risg yn cael ei gynnal a'i gofnodi. Bydd hyn yn nodi unrhyw risgiau a allai fod yn bresennol a allai eich niweidio chi neu'r babi heb ei eni, a manylion camau y mae angen eu rhoi ar waith i liniaru neu leihau unrhyw risgiau a allai godi o unrhyw leoliad neu waith maes, gydag unrhyw fesurau angenrheidiol wedi'u nodi a'u gweithredu.
- 4.4 Bydd ymgynghorydd y Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynnal hyn a bydd wedyn yn cysylltu â'ch tiwtor cwrs ar eich rhan. Os oes angen amodau sylfaenol a bod angen cyngor pellach, bydd y Tîm Diogelwch a Chynaliadwyedd Iechyd yn gweithio gyda'ch Anogwr Cynnydd / Tiwtor Cwrs i gytuno ar unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio a chynnig cefnogaeth ar unwaith i'r fam sy'n disgwyl.
- 4.5 Mae'r asesiad risg ac unrhyw fesurau rheoli i'w rhannu gyda dysgwyr a thiworiaid cwrs drwy OnTrack. Bydd tiwtor eich cwrs yn gweithio gyda'r Corff Dyfarnu neu bartneriaid eraill i gytuno ar fesurau i'ch cefnogi, gan gynnwys unrhyw addasiadau priodol ar eich cwrs os nodir bod hyn yn angenrheidiol yn dilyn trafodaeth â chi. Dylid cofnodi hyn. Os yw'n briodol, dylai unrhyw diwtoriaid allanol gael gwybod am fyfyrwyr bechiog ar eu cyrsiau a'r asesiad risg a rennir gyda nhw hefyd.

- 4.6 Bydd angen adolygu'r asesiad risg hwn os oes unrhyw newidiadau yn eich cwrs astudio neu yn eich beichiogrwydd, allai effeithio ar eich lechyd a'ch Diogelwch chi. Dylid adolygu'r asesiad risg bob tri mis. Bydd yr asesiad risg hwn yn penderfynu a yw'n ddiogel i chi barhau i ddod i'r coleg, neu a ellir trefnu amserlen ddysgu arall i chi.
- 4.7 Os ydych chi'n dymuno dod yn ôl i'r coleg cyn pen 4 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, bydd angen cynnal asesiad risg ychwanegol cyn i chi ddod yn ôl i'r coleg. Nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi'u cynllunio i'ch atal chi rhag dod i'r coleg yn ystod y cyfnod 8 wythnos, ond i dynnu sylw at y ffaith y bydd pob achos unigol yn wahanol a bod angen dull hyblyg i leihau unrhyw risgiau i famau newydd.

#### Rhoi gwybod i rieni (plant dan 18 oed)

- 4.8 Fel rheol, bydd y coleg yn ceisio trafod unrhyw bryderon am ddysgwyr sy'n iau na 18 oed gyda'u rhieni/gwarcheidwad. Rhaid ymdrin â hyn yn sensitif a bydd Swyddog Lles yn trafod gyda'r dysgwr. Os yw'r Swyddog Lles yn credu y gallai rhoi gwybod i rieni / warcheidwaid gynyddu'r risg i'r dysgwr neu waethygu'r broblem, byddwn yn gofyn am gyngor gan y gwasanaethau cymdeithasol i ddechrau.

#### Cyfrinachedd / Rhannu gwybodaeth

- 4.9 Dylai cydweithwyr drafod pryderon gyda'r dysgwr a/neu'r cydweithwyr a gynhaliodd yr asesiad risg yn unig. Bydd yr unigolyn hwnnw wedyn yn penderfynu gyda phwy arall y mae angen rhannu'r wybodaeth a bydd yn gwneud hynny ar sail 'angen cael gwybod'.
- 4.10 Bydd rhannu gwybodaeth yn digwydd yn brydlon ac yn ddiogel a lle bo angen gwneud hynny a bod hynny'n gymesur. Bydd y wybodaeth yn berthnasol, yn ddigonol ac yn gywir.
- 4.11 Bydd y Swyddog Lles yn cael caniatâd y dysgwr a/neu'r rhieni i rannu gwybodaeth sensitif yn y coleg neu gydag asiantaethau allanol. Pan fydd rheswm da dros wneud hynny, gall yr Ymgynghorydd y Gwasanaethau Myfyrwyr rannu gwybodaeth heb ganiatâd, a bydd yn cofnodi'r rheswm dros beidio â chael caniatâd.
- 4.12 Nid yw'r GDPR na Deddf Diogelu 2018 yn atal y coleg rhag rhannu gwybodaeth â'r asiantaethau perthnasol, lle efallai bydd y wybodaeth honno'n helpu i ddiogelu plentyn. Rhaid cadw unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i'r Coleg o dan y Polisi hwn, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddf Diogelu Data a Pholisi Cadw Diogel y Coleg.

## **5. Y Gymraeg**

Mae'r canllawiau hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd pob cyfarfod, gohebiaeth a gwasanaeth cymorth sy'n berthnasol i'r canllawiau hyn yn cael eu cynnig yn Gymraeg.

## ASESIAD RISG AR GYFER MAMAU NEWYDD NEU FEICHIOG (MYFYRWYR)

**Mae Ffurflen Ar-lein ar gael drwy OnTrack i'w chwblhau a'i rhannu gyda Dysgwyr, Tiwtor Cwrs ac Arweinydd Tîm Gweinyddu ar gyfer Maes y Cwricwlwm.**

<b>Enw'r Fam Newydd neu Feichiog:</b> <b>Rhif Adnabod Myfyriwr:</b>	<b>Dyddiad yr asesiad:</b>
<b>Diwrnod disgwyledig y cyfnod geni neu ddyddiad geni'r babi:</b>	<b>Cwrs/Rhaglen Astudio:</b>
<b>Maes cwricwlwm:</b>	<b>Nifer oriau'r cwrs yr wythnos:</b>
<b>Disgrifiad o'r cwrs:</b>	<b>Enw'r unigolyn sy'n cynnal yr asesiad</b>

### [Rhowch X yn y blychau perthasol](#)

Mynediad i gyfleusterau lles		Symud yn ormodol		Ymbelydredd	
Gyda rhywun		Gwres		Sioc / Ysgytwad	
Plygu		Codi		Eistedd	
Cyfyngau biolegol		Blinder meddyliol		Sefyll	
Cludo		Symud o amgylch y coleg		Ymestyn	
Cemegion		Sŵn		Dirgryniad	
Oerfel		Blinder corfforol		Cerdded	

Mannau cyfyng		Offer diogelu personol			
Mannau mynd i mewn / mynd allan anodd		Ciwio			
<b>Mesur rheoli a nodwyd i weithredu</b>					

A oes unrhyw gyflyrau meddygol cysylltiedig â beichiogrwydd y dylem ni fod yn ymwybodol ohonynt? Rhowch fanylion.

Ydych chi'n bwydo ar y fron ar hyn o bryd?

Ydw/Nac ydw \* Dilëwch fel y bo'n briodol

Mynediad at gyfleusterau gorffwys addas ar gael?

Mynediad at breifatrwydd ar gael?

A oes unrhyw beryglon eraill wedi cael eu hystyried yn ystod yr asesiad hwn? Rhowch fanylion.

***Fel mam newydd neu feichiog, mae fy ngweithgareddau wedi cael eu hasesu a chytunwyd ar y mesurau uchod.***

**Rwy'n gwybod am y ddolen HSE sy'n rhoi canllawiau i famau newydd / beichiog <http://www.hse.gov.uk/mothers>.**

Dyddiad Cwblhau'r Asesiad:-	
Llofnod neu Enw'r person sy'n cwblhau'r Asesiad Risg.	
Llofnod y myfyriwr:	

Enw'r Tiwtor Cwrs a nodwyd	
Adolygiad yn angenrheidiol: Ydy/Nac ydy	Ydy / Nac ydy
Dyddiad Adolygu Arfaethedig 1	
Dyddiad Adolygu Arfaethedig 2	